O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 558 (Cy.80)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu, o ran Cymru, ddangosyddion perfformiad y bydd perfformiad awdurdodau tân ac achub, wrth iddynt ymarfer eu swyddogaethau, yn cael eu mesur yn eu herbyn o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu bod y dangosyddion perfformiad wedi eu nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae asesiad effaith reoleiddiol wedi ei baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn, a gellir cael copi gan Y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhydycar, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn 01685 729221).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 558 (Cy.80)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011

Gwnaed *21 Chwefror 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *1 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol arnynt, gan adran 8(3) o'r Mesur hwnnw, i ymgynghori â hwy, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

Dangosyddion perfformiad

2. Mae'r dangosyddion perfformiad y bydd perfformiad pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru'n cael ei fesur yn eu herbyn wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau yn cael eu pennu drwy hyn yn yr Atodlen.

(**1**) 2009 mccc 2.

Carl Sargeant

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

21 Chwefror 2011

YR ATODLEN

Erthygl 2

Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol

Cyfeirnod	*Dangosydd*
FRS/RRC/S/001	i) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt, fesul 10,000 o'r boblogaeth; ii) Cyfanswm y prif danau yr aethpwyd atynt, fesul 10,000 o'r boblogaeth; iii) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain mewn anheddau, fesul 10,000 o anheddau; iv) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 10,000 o'r boblogaeth.
FRS/RRC/S/002	Nifer y: i) Marwolaethau a achoswyd gan danau, fesul 100,000 o'r boblogaeth; ii) Marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o'r boblogaeth; iii) Marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 100,000 o'r boblogaeth; iv) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau, fesul 100,000 o'r boblogaeth; v) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o'r boblogaeth; vi) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a

	oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 100,000 o'r boblogaeth.
FRS/RRC/S/003	Cyfanswm y tanau mewn mangreoedd annomestig, fesul 1,000 o fangreoedd annomestig.